**<u>Cofnodion cyfarfod Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Abermaw</u>**
**<u>gynhaliwyd ar 16 Mawrth 2010 yn Siambr y Cyngor, Swyddfa Ardal, Abermaw</u>**

**<u>YN BRESENNOL</u>**

Y Cynghorwyr Tom Ellis (Cadeirydd Pwyllgor Craffu Datblygu), Trevor Roberts, Gethin G. Williams, Eryl Jones-Williams, (Cyngor Gwynedd), Y Cynghorwyr Peter Bunce (Cyngor Tref Abermaw), Julian Kirkham (Cyngor Cymuned Arthog), Mr K. J. Probert (Cymdeithas y Bad Achub), Mrs. Wendy Ponsford (Cymdeithas Defnyddwyr Harbwr a Moryd Abermaw), Mr Denis Howell (Clwb Hwylio Meirionnydd).

**Sylwedydd:** Y Cyng. David Richardson (Cadeirydd Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Aberdyfi)

<u>Swyddogion</u>

| | | |
|---|---|---|
| Mr Barry Davies | - | Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig |
| Mr Huw Davies | - | Peiriannydd Grŵp |
| Mr Glyn Jones | - | Harbwr Feistr |
| Mrs Glynda O'Brien | - | Swyddog Pwyllgor |

**Ymddiheuriadau:** Y Cynghorydd W. Roy Owen (Arweinydd Portffolio Dysgu Gydol Oes) a'r Cyng. R. Aeron Wiliams (Cyngor Tref Abermaw).

## 1. <u>DATGAN CYSYLLTIAD PERSONOL</u>

Datganodd y Cynghorydd Julian Kirkham fuddiant personol yn Eitem 4 – Adroddiad y Swyddog Morwrol ond yn benodol ar bwynt 9 – Gofynion Trwydded Fferi oherwydd y bydd yn gweithio rhan-amser fel Cychwr Trwyddedig yn ystod Gorffennaf ac Awst 2010.

'Roedd yr aelod o'r farn bod y buddiant yn rhagfarnu ac fe adawodd y Siambr yn ystod y drafodaeth ar yr eitem hon.

Ymholodd yr aelod uchod ymhellach os y byddai'n ofynnol iddo ymddiswyddo fel cynrychiolydd ar y Pwyllgor Ymgynghorol hwn oherwydd ei ddiddordeb personol ac y byddai'n gweithredu'n rhan-amser fel Cychwr Trwyddedig.

Mewn ymateb, esboniodd y swyddogion na fyddai'n ofynnol iddo ymddiswyddo ond pe cyfyd mater yng nghyfarfodydd i'r dyfodol lle bo budd personol yn cael ei ystyried yn un niweidiol ni chaniateir i aelodau siarad na phleidleisio a byddai'n rhaid ymadael â'r cyfarfod tra bydd y mater dan drafodaeth.

## 2. <u>COFNODION</u>

**Cyflwynwyd:** Cofnodion cyfarfod Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Abermaw gynhaliwyd ar 6 Hydref 2009.

**Penderfynwyd: Derbyn a chymeradwyo'r cofnodion fel rhai cywir yn ddarostyngedig i gywiro'r cyfieithiad Saesneg ym mhwynt 5 (e) trydedd frawddeg yn y paragraff olaf i ddarllen "Harbour Assistant" yn hytrach na "Harbour Master".**

2.1 Adroddodd y Cadeirydd ei fod o'r farn y dylai cofnodion y Pwyllgorau Ymgynghorol Harbwr gael eu cyflwyno i Bwyllgorau'r Cyngor megis y Pwyllgor Craffu neu Bwyllgorau Ardal fel bo modd i aelodau ddilyn i fyny argymhellion a wneir yn y Pwyllgorau Ymgynghorol. Tra'n

derbyn nad oedd y Pwyllgorau Ymgynghorol Harbwr yn gyfarfodydd statudol ac eithrio Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Porthmadog, teimlai'r Aelod y dylai'r cofnodion gael eu cyflwyno i bwyllgor pellach. 'Roedd yn ymwybodol bod y Swyddog Monitro yn bwriadu ymchwilio ymhellach i rai o ddyletswyddau Bwrdd y Cyngor mewn perthynas â harbyrau ond ar hyn o bryd, yn unol â'r drefn, fe fyddai'r swyddogion yn gweithredu ar unrhyw benderfyniadau a wneir gan y Pwyllgorau Ymgynghorol Harbwr.

2.2 **<u>Materion yn codi o'r cofnodion</u>**

**(a) Eitem 6 (3) - Glanhau ardal yr harbwr - colomennod o dan bont y rheilffordd**

Adroddwyd gan y Cadeirydd bod gwaith adnewyddu'r bont y rheilffordd yn mynd rhagddo ac yn unol â chais fe fyddir yn gosod rhwyd o dan y bont i atal y colomennod fynd yno a hyderir y byddai hyn yn lliniaru'r broblem i orfod glanhau'r palmant yn ardal yr Harbwr o'u baw.

**(b) Eitem 6 (6) - Rheoli cŵn a chŵn yn baeddu ar y traeth a'r promenâd**

Gofynnodd aelod i'r Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig os oedd y gwasanaeth morwrol yn cymryd y mater hwn o ddifrif ac a oedd swyddogion yn barod i gyflwyno dirwy i berchnogion cŵn os oeddynt yn eu dal yn baeddu ar y traeth neu'r promenâd. 'Roedd grŵp o wirfoddolwyr wedi ei ffurfio yn ddiweddar i geisio cael trefn ar y broblem.

Mewn ymateb, teimlai'r Swyddog Morwrol ei bod yn ddyletswydd ar berchnogion cŵn i sicrhau eu bod yn clirio baw cŵn oddi ar leoliadau cyhoeddus. Mae methu a chlirio baw ci yn drosedd. Cydnabuwyd bod swyddogion y gwasanaeth yn cymryd y mater o ddifrif gan sicrhau hyfforddiant i staff ond rhaid cofio nad oedd rheoli baw cŵn yn un o brif ddyletswyddau staff yr Harbwr ac yn anodd gofyn iddynt neilltuo oriau yn y dydd i wneud hyn o ystyried y dyletswyddau eraill sydd ganddynt o fewn yr Harbwr. Fodd bynnag, nodwyd bod Harbwr Feistr Abermaw yn un o'r rhai gorau o fewn y gwasanaeth am gyflawni'r ddyletswydd hwn, a bod nifer arall yn yr Uned Forwrol wedi derbyn hyfforddiant ac wedi eu hawdurdodi gyflwyno cosb pe na fyddai perchennog ci yn clirio baw ci.

**Penderfynwyd: Derbyn a nodi'r uchod.**

3. **<u>ADRODDIAD Y SWYDDOG MORWROL</u>**

**Cyflwynwyd:** Adroddiad y Swyddog Morwrol**,** Mr Barry Davies, ar weithgareddau yn harbwr Abermaw gyda chyfeiriad penodol i'r canlynol:

(i) Ffioedd a Thaliadau
(ii) Cyllidebau
(iii) Mordwyo
(iv) Staff
(v) Gwobr Traeth
(vi) Cynllun pontŵn
(vii) Consesiynau Traeth / Promenad
(viii) Pecyn Cychod Ymwelwyr
(ix) Gofynion Trwydded Fferi

**Adroddwyd:** (a) Gan y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig :

(i) bod **ffioedd a thaliadau** ar gyfer flwyddyn ariannol nesaf 2010/11 wedi eu hanfon i'r swyddogion statudol a'r Arweinydd Portffolio sy'n argymell peidio codi'r tâl ar drigolion sy'n byw yng Ngwynedd yn barhaol ond eu codi 1% i'r rhai hynny sy'n byw tu allan i'r Sir.

Nodwyd bod y cynnydd mewn chwyddiant i bob Harbwr yng Ngwynedd yn negyddol ar -1.5% yn seiliedig ar ragdybiaeth cynnydd cyflog o 1%. Golyga hyn ostyngiad bychan yn nharged incwm cyffredinol yr holl Harbyrau o £2,600 yn ystod y flwyddyn ariannol nesaf. Atgoffwyd yr Aelodau nad oedd targed incwm Harbwr Abermaw wedi cyrraedd y targed gofynnol ers nifer o flynyddoedd ac fe fyddai'n ofynnol cymryd camau pellach i sicrhau bod y gwariant cyffredinol a'r targedau incwm yn cyrraedd eu targedau heb beryglu safonau.

Nid oedd ffioedd a thaliadau lansio a chofrestru Cychod Pŵer a Cherbydau Dŵr Personol wedi cynyddu eleni.

Tynnwyd sylw at y cynnydd cyffredinol yn y targed incwm ar gyfer yr holl harbyrau a marinas am 2010/11 sef £9,070 sy'n cymharu gyda tharged uwch o £51,020 yn 2009/10. Golygai hyn gynnydd targed incwm cyffredinol i'r Uned Forwrol o £2,130,970 yn 2010/11.

(ii) Tywyswyd yr Aelodau drwy'r **cyllidebau**, gan nodi targed incwm harbwr Abermaw o £52,010 am 2009/10 ac mai'r cyfanswm incwm hyd ddiwedd Rhagfyr 2009 ydoedd £35,409, o'i gymharu â £32,821 am yr un cyfnod llynedd. Rhagwelir na ellir creu'r diffyg o **£16,601** mewn incwm yn ystod chwarter olaf y flwyddyn ariannol bresennol sy'n golygu na chyrhaeddir y targed. Tynnwyd sylw'r aelodau at ddifrifoldeb y sefyllfa oherwydd rhagwelir gorwariant o £3,300 yng nghyllideb Harbwr Aberdyfi erbyn diwedd mis Mawrth sy'n golygu cyfanswm diffyg i'r ddau harbwr ar hyn o bryd yn £24,300 ac y bydd angen goresgyn y gorwariant ynghyd â'r diffyg mewn incwm.

Pwysleisiwyd, oherwydd yr hinsawdd economaidd sydd ohoni am yr angen i edrych ar arbedion effeithlonrwydd o fewn y gwasanaeth ac felly 'roedd yn ofynnol gweithredu'n gost effeithiol er mwyn ceisio amddiffyn y cyfleusterau sy'n bodoli i Harbwr Abermaw ac Aberdyfi.

Mewn ymateb i ymholiad gan aelod ynglŷn â'r arian a ddeillir o werthu'r siediau, esboniodd y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig bod rheoliadau a chanllawiau i'w dilyn mewn trosglwyddiadau o'r fath ond 'roedd modd clustnodi 50% o'r arian i'r gwasanaeth morwrol.

Yng nghyswllt gwaredu Doc Victoria, 'roedd Aelodau'r Cyngor wedi ail-ystyried oherwydd potensial i'w ddatblygu gydag addewid o grant. 'Roedd oddeutu 42 o gychod yn ymweld â Doc Victoria sy'n cynhyrchu oddeutu £110,000 mewn incwm ac yn yr un modd fe welir budd yn Hafan Pwllheli.

Teimlai aelod nad oedd Harbwr Abermaw nac Aberdyfi yn cael eu hysbysebu yn ddigonol 'run fath â harbyrau eraill y Sir gan y Cynulliad Cenedlaethol nac ychwaith nid oedd unrhyw gyfeiriad iddynt yng nghylgronnau Twristiaeth Gogledd Cymru.

(iii) yng nghyswllt **mordwyo,** cafwyd diweddariad gan y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig ynglyn â chynnal a chadw'r cymhorthion mordwyo a'r angen i adnabod arian o'r gyllideb refeniw presennol i gwrdd â'r gost. Tynnwyd sylw'r Aelodau at leoliadau'r cymhorthion mordwyo. Nodwyd bod marciwr yr Arllwysfa sy'n dangos pellter y bibell ollwng gyda bwi'r arllwysfa garthffos yn achosi pryder er i Dŵr Cymru fod yn ymwybodol o'r sefyllfa mae'r cymhorthydd mordwyo yn ddiffygiol.

Nodwyd bod cyflwr cymhorthydd y Glwyd yn parhau i ddirywio ac y byddir yn ei adnewyddu drwy ei osod ar stanc ar gost o £45,000 ond yn y cyfamser y byddai angen symud y cymhorthydd yn dechrau'r Gwanwyn gan osod cymhorthydd dros dro yn y sianel i ddangos lleoliad y rhwystr. Hyderir y bydd hyn yn dangos union leoliad y rhwystr gan sicrhau y bydd cychod yn mordwyo'r sianel yn cael eu cyfeirio oddi wrth y rhwystr. Bwriedir hysbysu morwyr cychod dyfnder bas sy'n mordwyo ar draws y lan ogleddol ar ben llanw am y rhwystr.

Cydnabuwyd bod cymhorthydd y Glwyd yn hanfodol i'r morwyr ac y byddai gosod bwi ar y safle yn barhaol yn gamgymeriad ac y byddai stanc uchel o ryw fath yn fwy derbyniol.

Gwnaed apêl gan gynrychiolydd y Clwb Hwylio i sicrhau bod morwyr yn cael eu hysbysu ac yn enwedig yn ystod cystadleuaeth Ras y Tri Chopa.

(iv) ymhelaethwyd ar y sefyllfa **staffio** gan nodi bod nifer o swyddogion o'r Uned Forwrol yn parhau i fod ar secondiad. Nodwyd bod y Cymhorthydd Harbwr o Aberdyfi (a oedd wedi ei secondio i swydd yn Abersoch) wedi ei benodi i'r swydd Harbwr Feistr Porthmadog.

Er bod 2 swydd barhaol o fewn strwythur staffio Harbwr Abermaw efallai y byddai angen ail-ystyried penodi swydd Cymhorthydd Harbwr llawn amser ar gyfer flwyddyn nesaf. Yn yr un modd fe fyddai hyn yn wir yng nghyswllt Harbwr Aberdyfi gyda'r patrwm o gydweithio rhwng staff y ddau Harbwr yn parhau.

Parthed penodi swyddogion traeth, hyderir y gellir penodi uchafswm o 4 ond pwysleisiwyd yr angen iddynt fod yn weithgar er mwyn sicrhau gwerth am arian i'r gwasanaeth.

(v) braf ydoedd nodi bod ansawdd y dŵr ymdrochi wedi cyrraedd y gofynion ac yn galluogi'r Uned Forwrol i gyflwyno cais am **Wobr Traeth y Faner Las.** Cyfeiriwyd yr aelodau at ganlyniadau'r prawf dŵr ymdrochi a oedd wedi eu hatodi i'r adroddiad fel bo modd cymharu gyda chanlyniadau dŵr ymdrochi Aberdyfi a Thywyn.

(vi) diweddarwyd yr aelodau ar ddatblygu prosiect i osod **pontŵn** fyddai'n ymestyn o wal y cei gyferbyn â swyddfa'r Harbwr am bellter o tua deg medr ar hugain er mwyn gwella mynediad a diogelwch i'r teithwyr / morwyr sy'n byrddio ac yn glanio yn Abermaw. Ymhelaethwyd ar yr ystyriaethau i'w hystyried megis cyflwr presennol wal y cei, trwydded FEPA, cais cynllunio, ymgynghori gyda Chyngor Cefn Gwlad Cymru. Fe gynhelir arolwg o'r wal gan beirianwyr ymgynghorol er mwyn sicrhau asesiad manwl o gyflwr wal y cei ac fe roddir ystyriaeth bellach i'r datblygiad o bontŵn wedi hynny. Pe byddai'r datblygiad yn mynd rhagddo, nodwyd mai cyfleuster tymhorol fyddai'r pontŵn a bydd angen ei ddatgymalu i'w gadw ar y lan yn ystod y gaeaf a'i ail-osod ar gyfer gweithgareddau'r tymor yr haf.

Nododd yr Harbwr Feistr ei fod yn parhau i ddisgwyl am gostau pontynau ail-law.

'Roedd cynrychiolwyr y Clwb Hwylio a Chymdeithas Defnyddwyr Harbwr a Moryd Abermaw dan yr argraff mai pontwn newydd yn hytrach nag ail-law oedd bwriad y prosiect gyda'r gobaith o ddenu arian ar ei gyfer o gronfa SPLASH. Nid oeddynt ychwaith yn sicr o faint y pontwn a ddim yn gallu dychmygu ei union leoliad yn unol a disgrifiad y Swyddog Morwrol.

Mewn ymateb, awgrymodd y Swyddog Morwrol bod angen felly trafod ymhellach union leoliad y pontwn a phe byddai'r Clwb Hwylio yn cyflwyno sylwadau i'r gwasanaeth morwrol o'r hyn 'roedd ganddynt mewn golwg ac yn ddymuno o ran lleoliad y pontwn gan gymryd ystyriaeth gofod ar yr harbwr i gychod ymwelwyr.

Ategodd y Prif Beiriannydd y byddai'n ofynnol cael archwiliad arbenigol o gyflwr wal yr Harbwr ynghyd â chynlluniau bras ar gyfer lleoliad y pontwn er mwyn canfod os byddai'n ymarferol gosod pontwn ar y wal yn ei chyflwr presennol.

Adroddodd y Cadeirydd y bwriedir cynnal cyfarfod anffurfiol gyda chynrychiolwyr o Aberdyfi i drafod costau a chyd-weithio rhwng y ddau Harbwr gan fod hwythau hefyd yn ymchwilio i osod pontwn yn Harbwr Aberdyfi. Sicrhaodd y Cadeirydd y byddai'n galw cyfarfod hefo swyddogion os yn briodol i drafod y datblygiadau ymhellach.

(vii) ni dderbyniwyd cais hyd yma am **gonsesiynau traeth** ond rhagwelir y bydd cais yn cael ei gyflwyno i weithredu gweithgareddau hamdden a reidiau ar gefn mulod ar y traeth. Nodwyd na fyddai'r atyniad lleol Trên Tir yn gallu gweithredu ar y promenad tan ddechrau mis Mai ar y cynharaf oherwydd yr angen i gwblhau'r gwaith atgyweirio i'r pen gogleddol o'r promenad.

(viii) adroddwyd, yn deillio o symbyliad gan y Cynghorydd David Richardson, Cadeirydd Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Aberdyfi, y bwriedir paratoi **Pecyn Croeso** i'w gyflwyno i gychod sy'n ymweld â harbyrau'r Sir sy'n cynnwys gwybodaeth am gyfleusterau'r harbwr, mwynderau lleol, llanw, bwytai, gwasanaethau brys a.y.b. 'Roedd Swyddog Datblygu'r Rheilffordd y Cambrian wedi addo cyflenwad o ddeunydd megis cardiau post, a.y.b. i'w cynnwys yn y pecyn. Ychwanegodd cynrychiolydd Cymdeithas Defnyddwyr Harbwr a Moryd Abermaw eu bod hwythau wedi casglu gwybodaeth ddefnyddiol mewn cydweithrediad â swyddog Cymunedau'n Gyntaf ar gyfer llunio'r pecyn. 'Roedd y wybodaeth yn cynnwys amserlenni, pamffledi, llwybrau cerdded o amgylch Abermaw, bwytai, a.y.b.

Awgrymodd aelod y byddai'n syniad i roddi mapiau o Abermaw mewn hysbysfyrddau ger y promenad er mwyn hyrwyddo atyniadau yn y dref. Mewn ymateb, cadarnhaodd y Cadeirydd y byddai'n codi'r mater hwn hefo Siambr Fasnach Tref Abermaw.

Teimlai'r aelodau bod y pecynnau croeso yn ffordd dda ymlaen ac fe ddiolchwyd i'r Cynghorydd David Richardson am ei symbyliad.

(ix) atgoffwyd yr aelodau i'r Uned Forwrol gyflwyno tair Trwydded Perchennog ac wyth Trwydded Cychwr i wasanaeth Fferi rhwng Abermaw a Phwynt Penrhyn yn 2009. Cyfeiriwyd at ddiffiniad o "dywydd ffafriol" fel y nodwyd yn y cyhoeddiadau a gyflwynwyd gan yr Asiantaeth Forwrol a Gwarchodwyr y Glannau ac fe fyddai unrhyw drwydded a gyflwynir yn cael ei seilio ar y gofynion sydd wedi ei gynnwys yng Nghod Ymarfer Cymdeithas Forwrol a Gwylwyr y Glannau (MCA) i gychod masnachol.

Cyflwynwyd i'r aelodau yn ystod y cyfarfod ddogfen ymgynghorol yn amlinellu gofynion Cymdeithas Forwrol a Gwylwyr y Glannau parthed Trwydded Meistr Cwch ac fe ddarllenodd y Swyddog Morwrol ei ymateb drwy ddatgan y cyflwynir trwyddedau cychwyr yr awdurdod lleol ar gyfer dyfroedd Aberdyfi, Abermaw, Porthmadog a'r Fenai yn ddarostyngedig i ymgeiswyr ddarparu'r dystiolaeth isod:

- Gwobr Lefel Dau Gwch Pŵer yr RYA gyda 12 mis o brofiad perthnasol
- Tystysgrif cymorth cyntaf dilys
- Trwydded VHF
- Tystysgrif goroesi ar y Môr

Tra'n derbyn y byddai Trwydded Haen 2 y Cymdeithas Forwrol a Gwylwyr y Glannau ar gyfer moryd gyfyngedig yn cael ei groesawu, 'roedd y swyddogion o'r farn bod y gofynion presennol yn llawer rhy gynhwysfawr ar gyfer gweithredwyr arfaethedig i fedru cyrraedd y lefel gofynnol ar gyfer Trwydded Meistr Cwch a chymryd i ystyriaeth mai o fewn dyfroedd dynodedig (C) maent yn gweithredu a'u bod yn feistri ar weithredu llestr bach masnachol i gario dim mwy na 12 o deithwyr.

Pe byddai datblygiad Trwydded Meistr Cwch Haen 2 y Cymdeithas Forwrol a Gwylwyr y Glannau yn dod i rym, a thrwy ymgynghoriad gyda'r Pwyllgorau Ymgynghorol Harbwr perthnasol, y tebygolrwydd fyddai i'r Gwasanaeth Morwrol fynnu y byddai'r drwydded yn ofyniad cyn y gellir gwneud cais am Drwydded Cychwr yr awdurdod, neu ystyried a oes angen Trwydded Cychwr yr awdurdod os fydd yr ymgeisydd yn meddu ar drwydded ddilys y Cymdeithas Forwrol a Gwylwyr y Glannau.

Noda'r ymateb hefyd ystyriaeth ar gyfer haen newydd i'r drwydded ar gyfer gweithredu cychod bach i deithwyr a bod y swyddogion o'r farn bod ardystiad masnachol yn ofyniad i'r rhai sy'n gweithredu mewn dyfroedd dynodedig C a D ac y dylai'r cyfnod cymhwyso fod yn 12 mis yn hytrach na 3 mis. Hefyd byddai'n ofynnol iddynt gael Tystysgrif Goroesi ar y Môr, trwydded VHF a thystysgrif cymorth cyntaf ddilys.

'Roedd gwahaniaeth barn ymysg aelodau ynglyn â'r gofynion - ar yr un llaw teimlwyd y byddai'r gofynion yn distrywio gwasanaeth y Fferi sy'n gwasanaethu o Abermaw i Bwynt Penrhyn sydd wedi bod yn gaffaeliad i'r Harbwr ers blynyddoedd lawer ac yn yr un modd yn effeithio ar wasanaeth y trên bach sy'n cludo teithwyr y Fferi o Bwynt Perhyn i Fairbourne. Ar y llaw arall byddai'n ofynnol rhoi ystyriaeth ddwys i'r mater o uwchraddio'r cymhwyster o ran iechyd a diogelwch y cyhoedd pe byddai damwain yn digwydd ar y foryd.

Tynnwyd sylw aelodau bod y ddogfen a dderbyniwyd gan y Cymdeithas Forwrol a Gwylwyr y Glannau yn gynhwysfawr ac er mwyn tegwch iddynt, fe awgrymwyd i Aelodau ei ddarllen cyn dod i farn derfynol ac y byddir yn rhoi sylw ac ystyriaeth bellach i'r mater yng nghyfarfod nesaf y Pwyllgor Ymgynghorol yn yr Hydref. Addawodd y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig y byddai'n anfon yr ymateb dyddiedig 5 Mawrth 2010 a anfonwyd i Cymdeithas Forwrol a Gwylwyr y Glannau ganddo i'r aelodau fel bo ganddynt ddealltwriaeth o'r gofynion.

**Penderfynwyd:- (a) Derbyn a nodi cynnwys adroddiad y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig.**

**(b) Bod yr Aelodau yn ystyried dogfen Asiantaeth Forwrol a Gwylwyr y Glannau (MCA) er ystyriaeth bellach yng nghyfarfod nesaf y Pwyllgor Ymgynghorol hwn i'w gynnal yn yr Hydref.**

**(c) Gofyn i'r Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig anfon ei ymateb dyddiedig 5 Mawrth 2010 a anfonwyd i'r Asiantaeth Forwrol a Gwylwyr y Glannau i'r Aelodau er gwybodaeth bellach iddynt i'w ystyried ar y cyd â'r ddogfen uchod.**

## 4. <u>MATERION I'W HYSTYRIED AR GAIS AELODAU'R PWYLLGOR YMGYNGHOROL</u>

Ystyriwyd y materion a ganlyn, oedd heb eu trafod yn ystod y cyfarfod hwn a chafwyd ymateb y swyddogion iddynt:-

### (1) Pwyntiau Trydan ar yr Harbwr

Gofynnwyd a fyddai modd i'r pwyntiau trydan ar yr Harbwr gael eu trwsio / newid oherwydd bod y rhai presennol wedi rhydu.

Addawodd yr Harbwr Feistr y byddai'n sicrhau eu bod yn cael eu trwsio mor fuan ag sy'n bosibl.

### (2) Angorfeydd

Adroddwyd gan gynrychiolydd y Clwb Hwylio bod sawl angor wedi eu codi a'u symud ac yn sgil hyn gofynnwyd am faint fyddai'r ddwy long sydd wedi angori yn yr Harbwr ar hyn o bryd i bwrpas cario cerrig i gynllun amddiffyn yr arfordir yn Nhywyn yn aros yn yr Harbwr?.

Mewn ymateb, dywedodd y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig os yw angorfeydd yn cael eu codi bod hyn yn beth da o ran rheoli ag archwilio'r angorfeydd ac y byddai'r gost o godi unrhyw angor yn gyfrifoldeb yr unigolyn. Os oes unrhyw anhawster ynglyn ag angorfeydd, apeliwyd ar i aelodau gysylltu yn uniongyrchol â'r Harbwr Feistr fel bo modd datrys unrhyw broblem a gyfyd. Bwriedir cyflwyno cynllun safonau angorfeydd i gyfarfod nesaf y Pwyllgor Ymgynghorol hwn.

Nododd y Prif Beiriannydd bod rhan fwyaf o gerrig wedi cyrraedd Tywyn ond bod angen i'r llongau angori yn Abermaw.

**(3) Tapiau ar yr Harbwr**

Gofynnodd cynrychiolydd Cymdeithas Defnyddwyr yr Harbwr a Moryd Abermaw os oedd modd gosod tap ychwanegol ar yr Harbwr i bwrpas morwyr i olchi eu traed.

Mewn ymateb, dywedodd yr Harbwr Feistr bod cyflenwad digonol o dapiau ar yr Harbwr yn barod ac ni ellir cyfiawnhau gosod un arall.

**(4) Gwarchodwyr Bywyd Cymdeithas y Bad Achub**

Gofynnwyd pam nad oedd Gwynedd yn gwneud defnydd o Warchodwyr Bywyd Cymdeithas y Bad Achub.

Eglurodd y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig y byddai'n rhaid i'r Cyngor dalu am wasanaeth Gwarchodwyr Bywyd Cymdeithas y Bad Achub a'u dyletswyddau wedi eu cyfyngu i achub bywyd yn unig. Drwy ddefnyddio wardeiniaid eu hunain fe all y Cyngor fod yn hyblyg gyda'u dyletswyddau a'u cyfrifoldebau. Ymddengys hyd yma bod Cynghorau Môn a Chonwy yn dilyn yr un drefn â Chyngor Gwynedd yn hyn o beth.

Mewn ymateb i'r uchod, mynegodd sawl aelod bryder ac anfodlonrwydd gyda'r sefyllfa a bod Cynghorau sydd yn cyflogi Gwarchodwyr Bywyd Cymdeithas y Bad Achub yn eu gweld yn ddefnyddiol.

**(5) Cynllun Carthu ar gyfer Harbyrau Gwynedd.**

Gofynnwyd beth oedd y cynlluniau ar gyfer carthu'r Harbyrau eleni?

Esboniodd y Prif Beiriannydd mai'r unig gynllun oedd gerbron eleni ydoedd i garthu Harbwr Pwllheli a Doc Victoria ac nad oedd bwriad i garthu unrhyw Harbwr arall o fewn y Sir. Ychwanegwyd nid oedd cyllid ar gael oherwydd cyfyngiadau ariannol i garthu'r holl harbyrau. Ymhelaethwyd ar y cynllun carthu yn Harbwr Pwllheli lle gwaredir y tywod i fwnd pwrpasol.

**(6) Compownd y Pysgotwyr a'r tir glas oddi amgylch**

Ymholwyd a oedd y tir glas oddi amgylch Compownd y Pysgotwyr ar werth gan y Cyngor?

Mewn ymateb, esboniodd y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig ei fod yn ymwybodol bod yr Adran Eiddo wedi derbyn cais gan unigolyn i brynu llecyn o dir yn mesur 20m x 5m i bwrpas gosod ffens oddi amgylch i atal ysbwriel gael ei daflu yno.

Deallir gan y Cadeirydd bod nifer o lythyrau o wrthwynebiad wedi eu derbyn i beidio gwerthu'r llecyn tir ac os oedd cynrychiolwyr y Clwb Hwylio o'r un farn awgrymwyd iddynt anfon llythyr o wrthwynebiad yn yr un modd i'r Adran Eiddo. Ymddengys bod llywodraeth y Cynulliad yn annog awdurdodau lleol i waredu tiroedd sydd yn eu meddiant.

**(7) Camerâu Cylch Cyfyng**

Bu i aelod o Glwb Hwylio Meirionnydd gysylltu â'r Gwasanaeth Morwrol ynglyn â'r uchod a heb dderbyn ymateb.

Cadarnhaodd y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig bod ymateb wedi ei anfon i'r unigolyn. Tra'n ddiolchgar am gyfraniad cyfalaf tuag at y gost i brynu a gosod camerâu cylch cyfyng raid cofio bod y gost o gynnal a chadw'r offer yn syrthio ar y gwasanaeth morwrol  Awgrymwyd os ydoedd y Clwb Hwylio yn awyddus i osod sustem eu hunain bod rhydd iddynt wneud a thrafod ymhellach gyda'r Gwasanaeth Morwrol.

**Penderfynwyd    Derbyn a nodi'r sylwadau wnaed ynghyd ag ateb y swyddogion perthnasol  i'r rhain.**

5. **UNRHYW FATER ARALL**

**(a) Llusernau Tsieineaidd**

Ymddengys bod gollwng Llusernau Tsieineaidd ar gyfer gwahanol achlysuron yn boblogaidd y dyddiau hyn ac yn aml yn cael eu cam-adnabod fel fflêr argyfwng.  Yn dilyn cyhoeddiad ar y newyddion yn ddiweddar yn apelio ar i'r cyhoedd hysbysu awdurdodau morwrol pan fyddent yn gollwng y Llusernau Tsieineaidd, awgrymodd aelod y dylid paratoi datganiad i'r wasg, mewn ymgynghoriad â Chadeirydd y Pwyllgor Ymgynghorol hwn, i apelio ar i'r cyhoedd hysbysu'r gwasanaeth morwrol os bwriedir gollwng llusernau yn ardal Meirionnydd.

**Penderfynwyd:    Derbyn a nodi'r uchod ac y byddai'r aelod mewn cysylltiad â'r Cadeirydd i gytuno ar y datganiad.**

**(b) Aelodaeth y Pwyllgor Ymgynghorol**

Adroddwyd gan aelod na fyddai debygol y byddai Mr E. L. Vaughan, cynrychiolydd o Gymdeithas Pysgodfeydd Môr Abermaw a Bae Ceredigion yn mynychu cyfarfodydd i'r dyfodol oherwydd gwaeledd tymor hir.

Addawodd Mrs Wendy Ponsford, cynrychiolydd Cymdeithas Defnyddwyr Harbwr a Moryd Abermaw, ganfod os oedd y Gymdeithas Pysgodfeydd Môr yn awyddus i benodi olynydd i Mr E. L. Vaughan, fel bo modd gwahodd cynrychiolydd i gyfarfodydd i'r dyfodol.

**Penderfynwyd:    Derbyn a nodi'r uchod.**

6. **DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF**

Adroddwyd y cynhelir cyfarfod nesaf y Pwyllgor hwn ar ddydd Mawrth, 5 Hydref 2010.

**Penderfynwyd    Derbyn a nodi'r uchod**

**CADEIRYDD**